Ffurflen Ginio

Dewiser un cinio a phwdin o'r canlynol ar gyfer pob unigolyn:

Cinio

- ☐ Sgampi mewn briwsion gyda saws tartar a sglodion
- ☐ Cig mochyn pob â mêl gyda thaten drwy'i chroen
- ☐ 1/2 cyw iâr gyda sglodion a phwt o salad
- ☐ *Lasagne* llysiau wedi eu rhostio a chaws feta gyda thaten drwy'i chroen a phwt o salad

Pwdin

- ☐ Salad ffrwyth ffres
- ☐ *Mousse Cappuccino* cartref
- ☐ Treiffl sieri cartref

Dysgu Gydol Oes
Lifelong Learning

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

CYNHADLEDD HANES DYFFRYN CLWYD

Tymhorau a Chynefin y Cymry

Melin Brwcws, Dinbych

07.05.11

www.bangor.ac.uk/dgo

Tymhorau a Chynefin y Cymry

Rhaglen y Gynhadledd

09.45 Te/Coffi a chroeso

10.00 Y Calendr a'r Tymhorau: Tecwyn Vaughan Jones
Mae'n gwyliau tymhorol wedi newid yn sylweddol yn ystod y ganrif ddiwethaf ac fe edrychwn ar y newid hwn yn ei gyd-destun cymdeithasol yn ogystal ag edrych ar y newid a'r addasu sydd wedi digwydd yn ein harferion traddodiadol. Ciliodd nifer fawr o hen arferion a daeth rhai newydd i fri. Beth yw ystyr y Fari Lwyd a'r Plygain erbyn heddiw a beth yw eu swyddogaeth? Pwy sydd wedi dwyn ein Nadolig traddodiadol a pham fod y Santes Dwynwen wedi tanio dychymyg nifer o'n cyd Gymry? Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r newid a welwyd yng nghefn gwlad Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r newid hwn wedi llamu ymlaen fel yr â'r ganrif rhagdddi.

11.00 Paned

11.15 Planhigion Meddyginiaethol - Bethan Wyn Jones
Roedd pobl yn arfer tyfu eu planhigion meddyginiaethol eu hunain, a'r wybodaeth amdanyn nhw'n cael eu trosglwyddo o law i law, o un genhedlaeth i'r llall. Roedd planhigion fel yr hen ŵr neu shili-ga-bŵd, y wermod lwyd a'r wermod wen yn llysiau cyfarwydd ac yn hwylus wrth law yn yr ardd at wahanol anhwylderau. Gwneid defnydd o flodau gwyllt hefyd. Roedd yr hen bobl yn gwybod am y defnydd y gellid ei wneud o blanhigion fel dant y llew, danadl poethion, llysiau'r wennol, yr erwain a'r goesgoch. Ymgais syml iawn fydd y sgwrs i ddisgrifio rhai o'r llysiau llesol mwyaf cyffredin ac i ddweud tipyn am eu defnydd fel planhigion meddyginiaethol.

12.15 Cinio
Os yw'r tywydd yn caniatáu, i'r rhai sy'n dymuno, bydd cyfle i fynd am dro i astudio planhigion, felly bydd angen gwisgo'n addas.

2.00 Cynefin - Bethan Wyn Jones
Mae siawns i chi synnu a rhyfeddu wrth glywed am hynt a helynt planhigion ac anifeiliaid Cymru. Cyfle i weld Mynydd Bodafon dan orchudd o eithin mân a grug, clywed hanes y wiwer goch yn dychwelyd i Fôn, teimlo'r heli ar gregyn y traeth, blasu ffrwythau'r hydref ac arogli'r gwyddfid ar awel yr hwyr.

3.00 Cloi

Sylwch: *Traddodir y darlithoedd hyn yn y Gymraeg*
Please note: *These lectures will be delivered through the medium of Welsh.*

Gwybodaeth Bwysig
Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly mae archebu lle'n fuan yn hanfodol.

Sylwch: Does dim cefnogaeth ariannol ar gael ar gyfer y gynhadledd yma.

Ni fyddwn yn anfon llythyrau allan i gadarnau eich lle nag unrhyw fanylion pellach. Oni bai ein bod yn cysylltu â chi, dylech fynd i'r gynhadledd ar yr amser ac yn y lle a nodwyd. Cewch dderbynneb ar y diwrnod.

Ad-daliadau: Fe gewch ad-daliad os byddwch yn tynnu'n ôl cyn 20.04.11. Os ydych am dynnu nôl wedi'r dyddiad yma ni fydd modd rhoi ad-daliad. Sylwch, yn ystod cyfnodau prysur fe all ad-daliad gymryd hyd at 4 wythnos i'w brosesu.

Ffurflen Gofrestru

Cost y gynhadledd eleni fydd £35 y pen yn cynnwys cinio dau gwrs.

I gofrestru, llenwch y ffurflen isod, ynghyd â'r ffurflen ginio dros y ddalen, a'i dychwelyd at sylw:

Annie Davies,
Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes,
Prifysgol Bangor,
Safle'r Normal
Ffordd Caergybi,
Bangor,
Gwynedd
LL57 2PZ

erbyn **20 Ebrill**, gyda siec yn daladwy i '**Prifysgol Bangor**'.

Neu, ewch i **www.bangor.ac.uk/dgo** i archebu eich lle a thalu ar-lein.

Dymunaf gofrestru ar gyfer y Gynhadledd uchod ac amgaeaf y ffi o £35

Enw .....

Cyfeiriad Llawn .....

.....

.....

☎ ....

Rwy'n caniatau i'r Brifysgol gadw'r manylion uchod ar ei chronfa ddata i'm hysbysu am gyrsiau a digwyddiadau Dysgu Gydol Oes. Rhowch ✓ yn y blwch os nad ydych yn dymuno derbyn yr wybodaeth yma. ☐